# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN, Dydd Iau, 12 Mawrth 2020 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cefn Meiriadog), Y Cynghorydd Hugh Evans, Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Y Cynghorydd Martyn Holland, Y Cynghorydd Brian Jones a/ac Y Cynghorydd Emrys Wynne

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor a Rachel Flynn.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol ag Eitem 5 – Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych.  Elfennau Anstatudol, gan fod ganddo blant sy'n defnyddio'r ddarpariaeth cludiant i'r ysgol.

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts gysylltiad personol ag Eitem 5 – Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych:  Elfennau Anstatudol, gan ei fod yn rhiant-lywodraethwr.

Datganodd y Cynghorydd Brian Blakeley gysylltiad personol ag Eitem 6 - adroddiad cynnydd ar argymhellion yn tarddu o adolygiad o dân mynydd Llantysilio, gan ei fod yn aelod o Fwrdd Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag Eitem 5 – Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych:  Elfennau Anstatudol, gan ei fod yn rhiant-lywodraethwr.
Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag Eitem 6 - adroddiad cynnydd ar argymhellion yn tarddu o adolygiad o dân mynydd Llantysilio, gan ei fod yn aelod o Fwrdd Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020.

**Cywirdeb –**

Tudalen 10 – roedd y Cynghorydd Graham Timms yn Gadeirydd Llangollen 2020 a oedd yn fuddiolwr posibl yn yr Ardal Gwella Busnes.

**Materion sy'n Codi -**

Tudalen 8 - Materion Sy'n Codi – roedd diweddariad wedi cael ei gylchredeg i aelodau yn darparu'r ymateb a dderbyniwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Tudalen 9 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â Rheoli Perygl Llifogydd yn Sir Ddinbych – darparwyd cadarnhad bod dau faes cyllid wedi cael eu canfod - Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor. Byddai Wayne Hope yn gallu cynorthwyo aelodau i gael cyllid grant ar gyfer llifogydd mewn ardaloedd lleol. Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, tynnodd Graham Boase sylw at weithdy aelodau a fyddai'n cael ei drefnu mewn ymateb i'r tywydd difrifol a gafwyd yn ddiweddar.

Tudalen 13 – rhwydweithiau band eang a symudol mewn ardaloedd gwledig – cafodd ymateb Llywodraeth Cymru ei gylchredeg i aelodau er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.*

## 5 POLISI CLUDIANT I DDYSGWYR SIR DDINBYCH: ELFENNAU ANSTATUDOL

Roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, y Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd, Martyn Dodd, Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau, Ian Land, Prif Rreolwr – Moderneiddio Addysg, Geraint Davies a Rheolwr Adran Cludiant Teithwyr, Peter Daniel i gyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ynglŷn â Pholisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych: Elfennau Anstatudol. Dywedodd bod yr adroddiad wedi ymddangos gyntaf fel testun dadlau ym Mhwyllgor Craffu mis Mai 2019. Ers yr adroddiad dechreuol hwnnw roedd gwaith wedi cael ei gwblhau gan Swyddogion a'r gweithgor i ddargadw cludiant ysgol i rai ôl-16. Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol, a allai arwain at orfod gwneud newidiadau ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Clywodd aelodau gan y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (RhCA) am y rheoliadau newydd ar gyfer cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a'u heffaith ar y cludiant ysgol sy'n daladwy yn ôl disgresiwn.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhad bod yr awdurdod yn darparu cludiant i golegau.
  O fewn y polisi roedd yr awdurdod yn darparu cludiant addas i'r ddarpariaeth addysg agosaf. Os yw unigolion yn dewis darparwyr amgen, esboniwyd y byddai'r gost yn cael ei hadolygu gan yr awdurdod a'r darparwr, i ganfod pwy fyddai'n ariannu'r costau cludiant.
- Trafodwyd pryderon ynglŷn â gorwariant ar y gyllideb cludiant i ddysgwyr. Pwysleisiodd y RhCA bod y ddeddfwriaeth yn datgan bod gofyniad statudol i ddarparu cludiant i ysgolion. Gan hynny os yw plentyn yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol, mae'n rhaid i ni fel awdurdod ddarparu'r gwasanaeth hyd yn oed os yw'n fwy na'r gyllideb. Clywodd aelodau bod cynnydd wedi'i gymeradwyo yn y gyllideb cludiant i ysgolion.
- Pe bai polisi'r Cyngor yn newid ac yn codi tâl ar fyfyrwyr ôl-16 byddai'n rhaid adolygu'r ddarpariaeth fflyd cludiant ysgolion i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio.
  Mae'n bosibl y gallai achosi problemau o ran argaeledd cerbydau addas.
- Roedd cyfarfodydd a drefnwyd i aelodau o'r Gweithgor Cludiant i Ddysgwyr wedi darparu llawer o wybodaeth ac wedi rhoi darlun o sefyllfa'r awdurdod i'r aelodau.
  Rhoddodd eglurder a gwybodaeth i aelodau am gyllideb a pholisi cludiant i'r ysgol.
- O fewn y polisi dylid darparu rhywfaint o hyblygrwydd a disgresiwn o ran ffiniau tir.
- Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r adran dai.
  Roedd cyfathrebiadau â'r adran dai a'r tîm digartrefedd yn parhau. Roedd elfen disgresiwn y polisi wedi caniatáu i blentyn barhau i dderbyn cludiant i'w hysgol hyd yn oed ar ôl symud allan o'r ardal. Roedd pob achos unigol a'r holl opsiynau yn cael eu harchwilio. Byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Gwasanaeth i gynnig cludiant i ysgolion a byddai pob achos yn cael ei asesu ar ei rinweddau ei hun.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Swyddogion am yr adroddiad manwl. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u>* - yn amodol ar y sylwadau uchod -**

***(i) ardystio argymhelliad y Gweithgor na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r elfennau anstatudol yn y Polisi Cludiant i Ddysgwyr;***

***(ii) yn unol ag awgrym Cadeirydd y Gweithgor, na ddylid chwalu'r Gweithgor ac y dylai'r Awdurdod gadw briff gwylio dros y 12 mis nesaf ar effaith y Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Cyhoeddus (PSVAR) ac adolygiad Llywodraeth Cymru o Deithio gan Ddysgwyr Ôl-16, gan y bydd y ddau yn cael dylanwad sylweddol ar drafodaethau cludiant ôl-16; a***

***(iii) darparu adroddiad i'r Pwyllgor faes o law ar effaith yr uchod ar bolisi cludiant i ddysgwyr y Cyngor a'r gyllideb gysylltiedig.***

**YN Y FAN HON, CYTUNWYD AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN.**

## 6 STRATEGAETH ARWYDDION TWRISTIAETH AR GYFER SIR DDINBYCH

Roedd yr Arweinydd, Cynghorydd Hugh Evans, Rheolwr Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd, Mike Jones a'r Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau a Peter McDermott yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd yr Arweinydd, Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â datblygu'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth, gan gynnwys adroddiad cynnydd ar gynlluniau parhaus arwyddion twristiaeth.

Clywodd aelodau bod yr adroddiad yn amlygu'r angen i fynd i'r afael ag Arwyddion Twristiaeth yn Sir Ddinbych. Mae twristiaeth yn bwysig iawn i Sir Ddinbych ac mae swyddogion wedi buddsoddi llawer iawn o amser a gwaith ynddo. Amlygwyd bod yr adroddiad wedi dyddio gan fod y gyllid a oedd yn weddill ar gyfer arwyddion Dyffryn Clwyd i'w gosod ar yr A55 wedi cael eu cytuno gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Croesawodd yr Arweinydd sefydlu gweithgor i ddatblygu Strategaeth Arwyddion Twristiaeth dilynol gyda'r bwriad o gyfeirio twristiaid at bob rhan o'r sir. Codwyd pryderon ynglŷn â chyllid ar gyfer y strategaeth, a fyddai disgwyliadau uchel yn gyraeddadwy gan y sector preifat ac a fyddai'r strategaeth yn gydnaws â Ffordd Cymru?

Rhoddodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd esboniad i'r pwyllgor o gylch gorchwyl y Gweithgor. Roedd aelodau o bob un o'r grwpiau ardal wedi cael eu gwahodd i fynychu'r grŵp. Bwriad y grŵp oedd goruchwylio datblygiad y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth. Byddai pump amcan arfaethedig y strategaeth, a amlinellir yn yr adroddiad, yn cael eu monitro gan y Gweithgor.

Rhoddwyd trosolwg o Ffordd Cymru i Aelodau gan yr Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau. Cadarnhawyd bod Sir Ddinbych yn gynwysedig yn Ffordd Gogledd Cymru ynghyd â phob Awdurdod arall yn y Gogledd. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill. Roedd Cymru a'i hatyniadau yn cael eu hyrwyddo trwy wybodaeth Ffordd Cymru er mwyn annog twristiaid i ymweld â Chymru.

Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r arwyddion o'r A55 tuag at y Rhyl. Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd bod swyddogion wedi bod yn archwilio nifer o opsiynau. Esboniwyd bod nifer o gwynion wedi'u derbyn gan drigolion Dyserth ynglŷn â thraffig. Cytunodd swyddogion y byddai arwyddion ar gyfer y Rhyl o Gyffordd 31 yn cynyddu traffig sy'n pasio trwy Dyserth gan arwain at gynnydd mewn cwynion. Esboniwyd bod swyddogion wedi edrych ar ddatrysiadau

eraill. Bydd yr arwyddion newydd arfaethedig yn caniatáu i'r cyhoedd gyrraedd cyrchfan ac yna mynd ymlaen i atyniad twristiaid.

Nid oedd arwyddion ar gyfer pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio wedi cael eu cynnwys yn nyluniad yr arwyddion twristiaid newydd, cadarnhaodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd y gallai hynny fod yn bwnc trafod yn y dyfodol. Roedd gorsafoedd gwefru ar gyfer 'Smart Cars' yn cael eu cefnogi gan dechnoleg 'Smart' a oedd yn cynnwys mapiau gorsafoedd gwefru, teimlwyd bod hynny'n ddigonol ar gyfer y galw presennol.

Cadarnhawyd mai dim ond newydd gymeradwyo'r cyllid oedd y Cyngor. Clywodd aelodau nad oedd yr hysbysiad o gymeradwyaeth wedi cael ei drafod gyda Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned hyd yma. Byddai'r Cyngor yn cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag amserlenni gwaith er mwyn cael amserlen mewn lle erbyn haf 2020.

Datganodd y Cadeirydd bod y gefnffordd yn mynd trwy nifer o wardiau lleol, awgrymwyd y dylai Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru fod yn rhan o'r Gweithgor ynghyd â'r aelodau.  Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw bod y gweithgor yn archwilio pryderon aelodau gan gynnwys cyllid a chyllidebau.

Cefnogodd yr Arweinydd y gallai'r gweithgor edrych ar yr awgrym o ddefnyddio symbolau ar arwyddion twristiaid o'r Gefnffordd. Gellid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn i'r polisi gael ei adolygu er mwyn hyrwyddo trefi sy'n bellach i ffwrdd o'r gefnffordd.

Roedd aelodau yn falch o weld lluniau o Sir Ddinbych yn cael eu cynnwys yn nogfen Ffordd Gogledd Cymru. Cadarnhawyd y byddai mwy o wybodaeth ac atyniadau twristiaid Sir Ddinbych yn cael eu hyrwyddo ar-lein ac mewn dogfennau pellach.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u>***

***(i) yn amodol ar yr arsylliadau uchod, cefnogi parhad y gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Arwyddion Twristiaeth, gan gynnwys estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth pan fyddai'r Gweithgor yn ystyried hynny'n briodol; a***

***(ii) derbyn drafft terfynol o'r Strategaeth Dwristiaeth ar ddiwedd 2020 / dechrau 2021 i'w harchwilio cyn ei chymeradwyo***

**Ar y pwynt hwn (11.35 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.50 a.m.**

## 7 ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ARGYMHELLION SY'N DEILLIO O ADOLYGIAD TÂN MYNYDD LLANTYSILIO

Roedd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Emlyn Jones, Uwch Swyddog Cefn Gwlad, David Shiel a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, Nick Thomas a Rhys Ellis, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Arweiniodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr aelodau trwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan ddarparu diweddariad am y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn argymhellion a wnaethwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â'r adolygiad o Dân Mynydd Llantysilio yn haf 2018. Darparwyd yr adroddiad ar gais y Pwyllgor.

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y gwaith yr oeddent wedi'i gwblhau ar y safle a'r opsiynau ar gyfer gwaith pellach. Roedd adolygiad o'r opsiynau i adfer yr ardal wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda pherchnogion tir. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda phorwyr cyn i'r gwaith ddechrau yn y gwanwyn. Cytunwyd cyflogi swyddog rhostir a chymeradwywyd cyllid gan Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru. Byddai deiliad y swydd yn monitro gwaith ar y safle a gwaith gyda pherchnogion tir a phorwyr lleol. Roedd aelodau am ddiolch i Gyfoeth Naturiol Cymru am y bartneriaeth ariannu i recriwtio swyddog rhostir ar gyfer y safle. Mynegodd yr aelodau siom nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi cytuno i gyfrannu'n ariannol at swydd y swyddog rhostir. Pwysleisiodd swyddogion bod y Gwasanaeth Tân wedi gofyn am gael cymryd rhan yn yr hyfforddiant a chefnogi deiliad y swydd newydd, ond na allai gyfrannu'n ariannol at y swydd. Cadarnhawyd na chysylltwyd yn uniongyrchol ag unrhyw awdurdodau lleol eraill am help i ariannu'r swydd.

Cododd aelodau bryderon am ffensio ardaloedd ar y safle. Pwysleiswyd bod angen cyfathrebu gyda'r porwyr. Mae'r berthynas gyda'r porwyr yn hynod bwysig. Roedd cynnwys porwyr yn y gwaith o adfer y tir yn cael ei ystyried yn hanfodol. Amlygwyd bod y problemau a wynebwyd gan y porwyr ar y pryd ac yn dilyn y tân wedi bod yn eithriadol o heriol.
Roedd y syniad o ffensio ardaloedd yn cael ei gynnig ar gyfer rhannau o'r tir, ond ni ddaethpwyd i unrhyw benderfyniad. Esboniwyd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â ffensio tiroedd comin gan y byddai angen cael cytundeb Adran 194 gan Lywodraeth Cymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylid osgoi ffensio ardaloedd o dir, yn ddibynnol ar drafodaethau â'r porwyr. Trafodwyd pryderon am lefelau llystyfiant mewn rhannau o'r mynydd. Cadarnhawyd bod rhai ardaloedd wedi gweld mwy o ddifrod nag eraill. Roedd nifer o wahanol dechnegau a dulliau o adennill a meithrin y llystyfiant yn cael eu cynllunio a byddent yn cael eu treialu. Byddai rhai ardaloedd yn cymryd llawer o amser i'w trwsio a'u datblygu.

Esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd bwysigrwydd y gweithgor i fonitro ac adolygu gwaith a wnaethpwyd ar y safle i adfer a phori'r tir. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y gellid pori'r tir ymhellach ymhen amser. Byddai swydd newydd y Swyddog Rhostir yn helpu i feithrin perthynas dda gyda phorwyr a hwyluso gwaith gyda Sir Ddinbych ac asiantaethau eraill. Byddai'r swydd newydd

yn darparu dolen allweddol i'r porwyr â Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyfathrebu unrhyw bryderon neu arsylwadau.

Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor:

***Penderfynwyd:***

***(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cydnabod y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma i weithredu argymhellion y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad i'r tân ar Fynydd Llantysilio a'i effaith;***

***(ii) cadarnhau fel rhan o'u hystyriaeth eu bod wedi darllen, deall a chymryd i ystyriaeth yr Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y Prosiect Rheoli Rhostir ac Atal Tanau Gwyllt (Atodiad 2 yr adroddiad); a***

***(iii)y dylai sylwadau gael eu rhoi i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, trwy gynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tân ac Achub, yn gofyn iddo ailystyried y penderfyniad i beidio â darparu cymorth ariannol i'r swydd Swyddog Rheoli Rhostir a fyddai'n cael ei sefydlu yn y dyfodol agos.***

## 8 LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL: ARCHWILIAD O GYMRYD CAMAU I ADOLYGU CASGLIADAU GWASTRAFF Y CARTREF, CEFNOGI'R AMCAN LLES O DDARPARU AMGYLCHEDD DENIADOL A GWARCHODEDIG

Roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tony Ward a chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru, Jeremy Evans, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru am y camau yr oedd y Cyngor yn eu cymryd i adolygu casgliadau gwastraff y cartref a sut oedd y camau hynny yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o ddarparu amgylchedd deniadol a ddiogelir sy'n cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Amlinellodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru rai meysydd gwella, datganodd y Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol mai ei rôl oedd ymateb i'r meysydd hynny a amlygwyd. Roedd y gwelliannau arfaethedig wedi cael eu hystyried ac roedd rhai elfennau eisoes ar waith. Un pryder oedd y gyllideb bresennol, byddai'n anodd cael cyllid i wneud y gwelliannau. Byddai gwaith yn cael ei gwblhau o fewn adnoddau a chyllideb bresennol y gwasanaeth gwastraff. Esboniodd Jeremy Evans (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth yr aelodau pam yr oedd yr adroddiad wedi'i greu. Dywedodd eu bod wedi sylwi ar nifer o bethau cadarnhaol yn ystod yr adroddiad gan gynnwys; buddion ehangach posibl, cydweithio sefydledig a chynnwys trigolion lleol. Roedd y meysydd gwella a awgrymwyd wedi cynnwys strategaeth mwy hirdymor.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyfathrebu yn hanfodol i ddarparu newidiadau i'r gwasanaeth.

Byddai cynnwys preswylwyr a sefydliadau eraill yn bwysig er mwyn pontio yn esmwyth.

- Cytunwyd bod addysgu plant o oedran ifanc yn hanfodol er mwyn deall pwysigrwydd ailgylchu a defnyddio llai o blastig ac ôl-troed carbon y Cyngor. Byddai angen gwneud gwaith allweddol gydag ysgolion.
- Roedd angen adolygu gwastraff o ysgolion er mwyn gweithio'n fwy effeithiol gyda gwell lefelau ailgylchu.
  Cadarnhawyd bod gwefan ar gael sy'n rhoi gwybod i ble mae gwastraff Sir Ddinbych yn mynd. Byddai'r Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol yn holi a yw'r ddolen i'r wefan ar gael trwy wefan Cyngor Sir Ddinbych.
- Roedd yn rhaid i gynaliadwyedd strategaeth wastraff mwy hirdymor ymgorffori'r strategaethau newydd a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.
  Nid oedd y strategaethau newydd wedi cael eu gwneud yn glir hyd yma. Ar ôl cael eglurhad byddent yn cael eu cynnwys yn y strategaeth. Roedd y model newydd wedi'i lunio i fod yn fwy cynaliadwy gyda'r gallu i ymateb i strategaethau newydd. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi annog y Cyngor i edrych ar gynaliadwyedd y strategaeth yn y dyfodol a'i hadolygu fel rhan o'r adroddiad. Cafwyd cadarnhad y byddai'r strategaeth newydd yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor craffu yn y dyfodol.

Diolchodd y pwyllgor i swyddog Swyddfa Archwilio Cymru ac i'r Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol am yr adroddiad positif a byddai'n croesawu'r adroddiad am y strategaeth pan fyddai wedi'i gwblhau.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> - Ar ôl ystyried canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cadarnhau ei fod yn fodlon ag ymateb y Cyngor i'r cyfleoedd i wella a awgrymir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.***

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- Yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mai 2020, roedd 3 eitem ar y flaenraglen waith ar hyn o bryd.
  Roedd lle i ychwanegu un eitem arall yn y cyfarfod nesaf. Byddai Aelodau Arweiniol yn cael gwahoddiad.
- Byddai'r cyfarfod i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol ac mae'n bosibl y bydd eitem yn cael ei gynnig ar gyfer agenda'r cyfarfod sydd ar ddod.

Atgoffodd y Cydlynydd Craffu aelodau am y ffurflen cynnig craffu (Atodiad 2 a ddosbarthwyd eisoes) a dywedodd y dylid anfon unrhyw gynigion yn uniongyrchol ati hi fel eu bod yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w cynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Gofynnodd y Cydlynydd Craffu i aelodau am geisiadau am sylw mewn cyfryngau cymdeithasol, cytunodd y pwyllgor ar y canlynol -

- Roedd y cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru tuag at y swydd swyddog rhostir wedi'i gadarnhau.
- Cadarnhawyd y byddai cludiant i ysgolion ar gael i bob disgybl ysgol.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim adborth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 p.m.**